

Joseph Banks a David Samwell a'u cysylltiad â Chaptin Cook


gan Dewi Jones, Dyffryn Nantlle.

Gyda golwg pellach ar gysylltiad John Lightfoot a Joseph Banks â Chymru (gw. Y Casglwr 83, Gwanwyn 2005, t. 9) credaf y buasai'n ddiddorol ehangu ychydig ar hyn a rhoi sylw i rai o'u cydoeswyr, eu cyfraniad i faes botanegol, meddyginiaethol, yn ogystal â llenyddol y cyfnod. Roedd darganfod planhigyn prin yn golygu fod enw'r darganfyddwr yn cael ei anfarwoli a'i gysylltu gyda'r planhigyn hwnnw wedyn. Gwelir enw Joseph Banks ar dudalen 85 o *The Flora of Anglesey & Carnarvonshire* gan John E. Griffith, gan mai ef sy'n hawlio'r clod o fod y cyntaf i gofnodi'r Heboglys Hardd (*Hieracium holosericeum*) o fynyddoedd Eryri yn 1773. Ni chyfyngid y chwilo'ta i'r Ynsoedd Prydeinig yn unig, fodd bynnag.

Erbyn chwarter olaf y 18fed ganrif roedd yr hen arferiad o fynd allan i'r wlad i gasglu planhigion gwyllt wedi rhannu'n ddwy ran, sef casglu i'r perwyl o baratoi meddyginiaeth, a chasglu er mwyn astudio'r planhigion a nodi eu dosbarthiad daearyddol. Mae cyfrol Hugh Davies, y *Welsh Botany*, yn esiampl perffaith o hyn. Mae'r llyfr wedi ei rannu'n ddwy ran; y rhan gyntaf yn ddetholiad sy'n nodi safleoedd daearyddol planhigion Môn, a'r ail ran yn llysieulyfr meddyginiaethol yn ôl yr hen drefn.

O'r hen lysieuaeth feddyginiaethol yr hanodd yr astudiaeth fiolegol fodern, ond yn ystod y cyfnod dan sylw bu rhinwedd llesol ambell blanhigyn yn gyfrwng i atal clefydau a gwella ansawdd bywyd y boblogaeth.

Roedd clefyd y clefri poeth, neu sgyrff, yn peri gofid a dioddefaint yn enwedig i forwy am nad oeddynt yn cael digon o fwyd ffres yn ystod mordeithiau hir ac heb gyflenwad digonol o fitamin C, gan achosi i'r deintgig chwyddo ac i glwyfau ailagor. Llwyddwyd o'r diwedd i atal y clefyd hwn drwy gyflwyno ffrwythau a llysiau fel rhan o ymborth y morwyr a'r enwog Capten Cook a gafodd y clod am hynny, ond mae'n eithaf posibl mai meddygon a gyflwynodd y syniad iddo yn y lle cyntaf. Cyn iddo gychwyn ar ei drydedd gylchfordaith darllenwyd papur o waith Cook ar y modd y llwyddodd i ymdrin â'r clefyd o flaen y Royal Society ac etholwyd ef yn Gymrodor o'r gymdeithas ym Mawrth 1776. Bu dau



David Samwell (1751-98)

Gymro yn feddygon ar fordeithiau Cook i Fôr y De sef, Robert Davies o'r Wyddgrug a David Samwell o Nantglyn yn sir Ddinbych.

Roedd llawfeddygon a botanegwyr yn aelodau pwysig o griwiau'r llongau yn ystod cyfnod mordeithiau Cook, a bu Joseph Banks yn gweithredu ar ei gylchfordaith gyntaf yn ystod y blynyddoedd 1768 a 1771 gan ddod â phlanhigion tramorol i Brydain a sefydlu Gerddi Kew ar raddfa ryngwladol. Bu'n llywydd y Royal Society o 1778 i 1820. Gwnaeth Cook ei ail gylchfordaith rhwng 1772 a 1775 a'i drydedd rhwng 1776 a 1779 pryd y lladdwyd ef yn Hawaii, a bu'r llawfeddyg o Gymro David Samwell yn llygad dyst i'r digwyddiad hwnnw. Cyhoeddodd Samwell yr hanes yn y *Biographica Britannica* ac yn y gyfrol dan y teitl *A narrative of the death of Captain James Cook*, yn 1786. Llyfr sy'n cael ei ystyried yn ffynhonnell bwysig gan gofianwyr Cook. Mae'r gyfrol gynharaf yn brin iawn erbyn heddiw, ond ailgyhoeddwyd yr hanes dan y teitl *Captain Cook and Hawaii* yn 1957.

Gadawodd ei lyfrau i David Samwell

Roedd Robert Davies o'r Wyddgrug yn llawfeddyg ar y *Resolution* gyda David Samwell a thrwy'r cofnodion a gadwai Samwell yn ystod ei fordeithiau mae'n cofnodi marwolaeth William Anderson, y pŵf llawfeddyg ar y llong *Resolution*, o'r ddarfodedigaeth ar 3 Awst, 1778. Brodor o North Berwick oedd Anderson ac wedi astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Caeredin hwyliodd gyda Cook ar ei ail gylchfordaith yn ogystal â'r olaf. Roedd yn fotanegydd brwd ac wedi casglu planhigion o Awstralia ac ynsoedd eraill ym Môr y De, pryd y dysgodd siarad yr iaith Taheite. Gadawodd ei gasgliad planhigion a cheiriau eraill a gasglodd yn ystod y fordaith i Joseph Banks a'i lyfrau i David Samwell. Yn dilyn angladd morwrol Anderson penododd Cook llawfeddyg y *Discovery* i gymeryd ei le ar y *Resolution*, a dyrchafwyd Samwell i fod yn llawfeddyg ar y *Discovery*, llong Cook.

Ganed David Samwell yn Nantglyn ar 15 Hydref 1751 ac er nad oes fawr o dystiolaeth ar gael ynglŷn â'i flynnyddoedd cynnar ymddengys iddo ymgymhwyso yn y *Royal College of Surgeons* fel swyddog meddygol i'r llynges yn 1775 fel ail fêt, trydydd graddfa, a chafodd ei brofiad cyntaf yn y swydd hon pan hwyliodd i'r Ynys Las pan yn ugain oed. Bu'n gwasanaethu fel llawfeddyg ar saith o wahanol longau rhwng 1778 a 1796, galwedigaeth a alwai am ymroddiad a gwytnwch arbennig, gan y byddai'n gweithio dan amodau anodd yn aml, yn enwedig ar long rhyfel yn ystod brwydrau o gofio'r offer oedd ar gael a chyfyngder y gweithle.

Ar wahân i'w swydd fel llawfeddyg roedd gan David Samwell ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth a chyfansoddodd nifer o gerddi, ac arferai fynd â rhai o'i lyfrau gydag ef ar ei fordeithiau. Daw ei ddiddordeb yn chwedd Madog yn hwylio i'r America i'r amlwg yn ei gerdd *The Padouca Hunt*. Roedd yn gydnabod i nifer



Joseph Banks (1744-1820)

o Gymry blaenllaw y cyfnod, fel Gwallter Mechain, Iolo Morgannwg a Thwm o'r Nant, ac roedd yn un o aelodau cynharaf Cymdeithas y Gwyneddigion. Gallai fod yn gymeriad digon pigog ar brydiau ac mae un hanesyn diddorol amdano yn slinsio Edward Jones (Ned Môn) i ymladd gornest gydag ef yn dilyn ffrae danllyd, ac yn cychwyn i'w gyfarfod o dŷ William Owen Pughe yn Pentonville un bore, a Iolo Morgannwg yn eilydd iddo. Pan sylweddolodd nad oedd Edward Jones wedi cadw'r oed, brasgamodd i chwilio amdano yn ei gartref yn Neuaddau'r Frawdlys, ond yn lle setlo'r anghydfod yn y ffordd arferol taflwyd y llawfeddyg yn ddiseremoni i lawr y grisiau. Rhaid cofio bod Edward Jones ddeg mlynedd ar hugain yn ieuengach na David Samwell.

Ymddengys ei weithrediadau a'i ddiddordebau ei fod yn Gymro twymgalon. Yn ogystal â'i ymrwymiad i'r Gwyneddigion, gan ddod yn ysgrifennydd yn 1788 a'i llywydd yn 1797, roedd yn gefnogwr brwd i'r Orsedd a gynhaliwyd i Gymry Llundain ac i Eisteddfodau'r gymdeithas a gynhaliwyd yng Nghymru. Bu'n flaenllaw yn casglu gweithiau Dafydd ap Gwilym a Huw Morys ac roedd meddwl mawr ganddo o Dwm o'r Nant.

Mae cofnod o farwolaeth David Samwell yn *The Gentleman's Magazine* (1798) lle dywedir iddo farw yn ei gartref yn Fetter Lane, Llundain yn Rhagfyr 1798 yn saith a deugain oed. Mae'n gorwedd ym mynwent Eglwys St Dunstan yn Stryd y Fflud.

Prif ffynonellau:

William L. Davies, 1928 'David Samwell (1751-1798) Surgeon of the "Discovery" London-Welshman and Poet' *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* Session 1926-27 London: 70-133.

Dewi Jones, 1996 *The Botanists and Guides of Snowdonia*, Llantwst.

O.E. Roberts, 1958 *Gwyddonwyr o Gymru*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

CYWIRIAD

Yn erthygl Dewi Jones ar John Lightfoot a Joseph Banks... ar dud 9 o'r rhifyn diwethaf dylai'r capswn o dan y silwet fod yn John Lightfoot ac nid Joseph Banks